CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 2 MEHEFIN 2009

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng H W Roberts

Cynghorwyr
H Edwards, W R Owen, R Anderson, M Powell Jones, O T Owen, W T Owen,
I C Thomas, A W Bohana, G Parry, A Kirk, M Thomas, W Lloyd Davies, A Roberts.

Gweddïau

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Dirprwy Faer Cyng H Edwards

1. Ymddiheuriadau

M Davies, A Y Williams, R Bonner Pritchard

2. Cyhoeddiadau'r Maer

- 27 Ebrill Noson Sefydlu Maer – Biwmares
- 1 Mai – Noson Sefydlu Maer – Dinbych
- 11 Mai – Noson Sefydlu Maer –Bangor
- 14 Mai – Noson sefydlu Maer Caernarfon – diolch i bawb am noson difyr
- 15 Mai – Castell – wythnos addysg oedolion
- 19 Mai – Cymdeithasfa Y Gogledd
- 20 Mai – Agor cwrt newydd
- 22 Mai – bore coffi Sefydliad y Galon
- 22 Mai – cerddor y flwyddyn - Galeri
- 27 Mai – Angladd David Hughes – teulu yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor am y teyrnged
- 30 Mai – Ras cychod hwylio
- 2 Mehefin – Ymweld a'r Castell gyda plant Landerne
- 17 Mai – Sul Y Maer – Caer – diolchgar i Cyng. H Edwards am fynychu

Llongyfarch Cyng. W T Owen ar ei apwyntiad fel Is Gadeirydd Cyngor Gwynedd
A dymuno pob lwc i Cyng. G Parry wrth iddo derbyn yr her o redeg y tri copa

3. Datgan Buddiant Personol

Cynllunio – I C Thomas, R Anderson, W R Owen, W T Owen, H Edwards

4. Eitemau Brys

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 5 Mai 2009
ii. Cyfarfod Blynyddol 14 Mai 2009

Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Cynllunio

I ystyried y ceisiadau
Penderfynwyd
Anfon rhestr o argymhellion i'r awdurdod priodol

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd
Derbyn a nodi bod costau goleuadau Nado lig llynedd wedi dod drosodd i g ostau eleni, ac angen cofio bod y gweddill yn cael eu ychwanegu i pot eleni

9. Dewis aelodau i'r Is-Bwyllgor a Phanelau 2009 – 2010

Panel Cyllid a Staff	:	Cyng. I. C. Thomas, Cyng. Mel Davies, Cyng. W. Ll. Davies, Cyng. W. T. Owen, Cyng. A. Kirk, Cyng. R. Anderson, Cyng. A. Bohana, Cyng M. P. Jones, Cyng. A. Y. Williams, Cyng. Richard Bonner Pritchard, Cyng. Menna Thomas Cyng. H. W. Roberts, Cyng A Roberts
Is-Bwyllgor Adloniant/ Entertainment Sub-Committee		Cyng. M. P. Jones, Cyng. H. W. Roberts Cyng. Mel Davies, Cyng. Menna Thomas Cyng. Richard Bonner Pritchard, Cyng. W. Ll. Davies, Cyng. R.Anderson, Cyng. I. C. Thomas, Cyng. A. Kirk Cyng. A. Bohana, Cyng. A. Roberts Cyng. O. T. Owen
Gweithgor		Cyng. H. W. Roberts, Cyng. W. R. Owen, Cyng. A. Y. Williams, Cyng. O. T. Owen Cyng. A. Roberts Wrth gefn: Cyng. W. T. Owen, Cyng. W. Ll. Davies

a

Dewis Cynrychiolwyr ar Gyrff Allanol 2009 – 2010

Llywodraethwyr

Ysgol yr Hendre	:	Cyng. A. Bohana
Ysgol y Gelli	:	Cyng. W.Ll. Davies
Ysgol Maesincla	:	Cyng. M. P. Jones
Ysgol Santes Helen	:	Cyng. R. Anderson
Galeri	:	Cyng. W. Ll. Davies
Canolfan Cynghori/CAB	:	Cyng. Menna Thomas gyda'r Cyng. A. Bohana wrthgefn
Canolfan Noddfa	:	Cyng. A . Bohana

Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog/Walled Town Friendship Circle	:	Cyng. H. W. Roberts (Maer), Cyng. M.P. Jones ***Cyng. W. T. Owen, Cyng. A. Y. Williams*** ***Cyng. A. Bohana, (3 pleidlais)***
Ymddiriedolaeth yr Harbwr/ Harbour Trust	:	Cyng. I. C. Thomas
Seiont II	:	Cyng. W. T. Owen
Partneriaeth Caernarfon	:	Cyng. Richard Bonner Pritchard a'r Cyng. Mel Davies
Unlllais Cymru	:	Cyng. Huw Edwards a'r Cyng. H. W. Roberts gyda'r Cyng. A.Bohana wrthgefn
Siambr Fasnach	:	Cyng. W. Ll. Davies a'r Cyng. Richard Bonner Pritchard
Gefeillio		Cyng. Huw Edwards

Penderfynwyd
Parhau'r ar enwebiadau

10. Cyngor Gwynedd Par: Y Maes

i. E-bost ar ran Prif Weithredwr
ii. Llythyr Dafydd Williams
iii. Llythyr Aled Davies

Penderfynwyd
Yn dilyn trafodaeth eang, penderfynwyd ail ysgrifennu 2 lythyr yn nodi

i) I Cyngor Sir yn nodi ers y llythyr 11 Mai dim gwelliannau, erfy n ar y Prif Weithredwr i siarad a'r gweithgor. Awgrymu mai diffyg arwyddion yw'r problem mawr ("restricted zone" yn golygu dim i neb) ac awgrymu rheolaeth traffig o 15milltir yr awr. Pryderon nad yw TCG yn ateb y broblem gan bod hyn yn atal ymwelwyr i'r dy fodol

ii) I'r Heddlu yn nodi pryderon ynghylch a 'r sefyllfa parcio erchyll lle mae'r lonydd yn cael eu cau trwy g eir yn parcio'n anghyfreithlon. Gofyn pwy fyddai'n gyfrifol mewn sefyllfa argyfwng?

11. Un Llais Cymru

Adroddiad Cyng. A. Bohana
Nodwyd bod Peninsula wedi bod yn siarad am faterion i gyflogwyr – pecynnau gan y clerc. Trafodwyd cwmni oedd yn gosod camerau mewn trefi . Cyfarfod nesaf 1 Gorffennaf

Penderfynwyd

Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyng. A Bohana am ei barodrwydd i deithio i'r cyfarfodydd hyn

12. Grwp Marchnata

(Cymerodd Cyng H Edwards y gadair)
Adroddiad gan y Cyng. Hywel Roberts

1.0 Cefndir

1.1 Yn dilyn adroddiad ymgynghorwyr cafwyd cyfarfod 5 Ionawr 2009 i drafod ac i benderfynu y ffordd ymlaen i sefydlu grwp marchnata i hyrwyddo Caernarfon. Penderfynwyd cael cyngor gan Ganolfan Cydweithredol Cymru er mwyn sefydlu cwmni cydweithredol ond yn y cyfamser sefydlu dau is -grwp:

- i lunio taflenni marchnata gyda'r dasg o gael dwy daflen yn barod ar gyfer tymor twristiaeth hâf 2009 – un i ddenu bobl i Gaernarfon ac un i'w rhoi iddynt ar ôl cyrraedd yma, sef y "Town Guide";
- i lunio "spec" ar gyfer safle we i hyrwyddo Caernarfon.

1.2 Cafodd y Grwp gyfarfod gyda Llew Roberts o'r Ganolfan Cydweithredol ar 11 Mawrth i drafod enw, amcanion a chyfansoddiad y grwp ac roedd y cyfarfod 29 Ebrill yn ddilyniant i hyn.

2.0 Cyfarfod 29 Ebrill

2.1 Dim ond 5 aelod oedd yn bresennol yn ychwanegol i Llew Roberts a Ioan Thomas oedd yno fel Cadeirydd Partneriaeth Caernarfon. Eglurodd Llew yr hyn oedd wedi ei wneud a gofynnodd am drafodaeth ar nifer o bwyntiau. Bu trafodaeth a chytunwyd ar yr enw "Cymdeithas Marchnata Caernarfon Cyf" ac ar nifer o bwyntiau yn y cyfansoddiad megis aelodaeth. Yn ystod y drafodaeth dywedodd cynrychiolydd CADW na allent fod yn rhan o gorff cyfansoddiadol ond eu bod yn awyddus iawn i gydweithio ac i gefnogi gweithgaredd marchnata. Hefyd Cyngor Gwynedd. Dwedais innau na allai Clerc y Dref cymryd swydd mewn cwmni fyddai y Cyngor yn debygol o fod yn cyfrannu yn ariannol ato.

2.2 Yn dilyn y cyfarfod fe anfonodd Llew ei ddrafft o'r cyfansoddiad ar 12fed o Fai.

2.3 Mae y daflen yn annog pobl i ddod i Gaernarfon wedi ei chyhoeddi bellach ac wedi ei ariannu gan Gyngor Gwynedd. Mae yn edrych yn dda ac mae wedi ei dosbarthu drwy ogledd Cymru.

2.4 Nid yw y daflen "Town Guide" wedi ei chwblhau eto ac mae hyn yn creu cryn bryder gan ei bod yn ddiwedd Mai a'r tymor twristiaeth wedi dechrau.

3.0 Y camau nesaf

3.1 Rhaid i'r Grwp gyfarfod yn fuan i drafod ac i gytuno ar yr enw a'r cyfansoddiad ac yna dewis swyddogion er mwyn dod yn weithredol cyn gynted â phosib.

3.2 Rhaid i'r daflen "Town Guide" gael ei chynhyrchu cyn gynted â phosib (heb aros am gytundeb ar y cyfansoddiad).

3.3 Yn dilyn ei sefydlu'n gyfansoddiadol un o flaenoriaethi aethau'r Gymdeithas fydd dod i benderfyniad ar y wefan er mwyn sicrhau bydd yn dod yn weithredol yn yr hydref er mwyn bod yn effeithiol i hyrwyddo Caernarfon ar gyfer 2010.

Penderfynwyd
Derbyn yr adroddiad a diolch

(Y Maer yn ôl i'r gadair)

13. Ymddiriedolaeth Dinesig Cymru

Cynllun Drysau agored
Penderfynwyd
I agor yr adeilad am gyfnod yn ystod y cynllun. Y Maer, Dirprwy a'r clerc i wneud trefniadau . Angen Cynghorwyr i wirfoddoli (Wil a Ioan wedi cytuno eisoes)

14. Llythyrau diolch

i. Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru
ii. Eisteddfod Genedlaethol
iii. Seiont II
iv. Theatr Bara Caws

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15. **Unllais Cymru**

Cynhadledd 10 Hydref

Penderfynwyd

Unrhyw rhybudd o gynnig i'w drafod yn y Pwyllgor nesaf efo hawl i weithredu. Anfon y ddau gynrychiolydd arferol sef Cyng H Roberts a Cyng H Edwards

16. **Carchar**

i. Llythyr o Clarence House (+ llythyr amga eedig)
ii. Llythyr David Hanson AS

Penderfynwyd

i- derbyn er gwybodaeth , ac ysgrifennu at Mr Bracegirdle i dynnu sylw i'r ffaith ein bod ddim yn anwybyddu'r sefyllfa ond yn ceisio cael manylion llawn gyntaf

ii- Ceisio cael swyddog o NOMS(at Iwa n Trefor) fel siaradwr gwadd i d rafod y llythyrau (unai i'r pwyllgor nesaf neu g yfarfod arbennig

(Cyng G Parry yn gadael)

17. Cyngor Gwynedd

Ymgynghoriad ar Gynllun Gweithredu Drafft Strategaeth

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

18. E-bost Cyngor Gwynedd

Par: Mynwentydd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

19. E-bost Eirian James

Penderfynwyd

Archwilio os fydd yna gostau treth- yna £25 a c yswiriant ynghyd ag unrhyw gostau treth

20. Diweddariad Cyng. William Lloyd Davies

Par: Siambr Fasnach

Croesawyd y Cynghorydd Dyfed Edwards, Cadeirydd Cyngor Sir Gwynedd a Mr Llyr Jones i'r cyfarfod ac fe drafodwyd dau adroddiad sy'n berthnasol i gyngor y dref.

1. ADRODDIAD 1

Cyfeiriodd Dyfed Edwards at y Cynllun Gweithredu: Ymateb i'r Dirwasgiad yng Ngwynedd.

A. CYNLLUN TYMOR BYR

1. POBL FREGUS

Hawlio budd-daliadau; cinio am ddim; Cyngor a gwybodaeth; adnabod teuluoedd mewn angen;tlodi tanwydd;di-gartrefedd; pobl hyn; tlodi plant; targedu ardaloedd;tracio effeithiau'r dirwasgiad.

2 ECONOMI, BUSNES a SWYDDI

Dylanwadu ar wneuthurwyr polisi – lobio etc; strategaeth gyfathrebu; cefnogi busnesau bach; canol trefi a'r sectorau manwerthu; sector adeiladu; cefnogaeth swyddi; sgiliau.

3.CYNLLUNIAU CYFALAF, REFENIW a CAFFAEL

Rhaglen gyfalaf y Cyngor

Cynlluniau cyfalaf mawr.

B. CYNLLUN YMLAEN

Asesu effaith y dirwasgiad ar wasanaethau'r Cyngor

Asesu effaith ar y Gymuned ac unigolion bregus

2. ADRODDIAD 2

Soniodd Mr Llyr Jones am Brosiectau Adfywio Trefol Canol Bangor a Chaernarfon sef adroddiad a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar Fai 19eg. 2009

Arian cyfatebol (£am£) yw hyn a gobeithir derbyn £2.5m

Unwaith eto, nid oes cynigion manwl wedi eu paratoi hyd yma, ac fe fyddai angen trafod, ymgynghori a dwyn ynghyd nifer o randdeiliaid wrth ddatblygu'r manylion perthnasol. Rhagwelir y byddai'r agweddau hyn yn allweddol ac yn angenrheidiol i'r cynllun, ac y byddai rhaid neilltuo adnoddau ac amser digonol i'r perwyl yma.

Mae'r elfennau canlynnol wedi eu hadnabod fel agweddau i 'w hymgorffori i'r cynllun arfaethedig:

- gwelliannau amgylcheddol ar hyd Stryd Llyn
- gwelliannau amgylcheddol yn ardal Pendist – sydd yn cysylltu'r castell, y dref gaerog a'r Maes
- gwelliannau amgylcheddol ac addasiadau rheoli/llif traffig ar hyd strydoedd ac ardaloedd masnachol gan gynnwys Stryd Bangor, Bont Bridd a Penllyn.
- gwelliannau amgylcheddol addasiadau rheoli/llif draffig ynghyd â gwell cyfleusterau cludiant cyhoeddus/gorsaf bws ar Penllyn.
- adolygiad llawn o'r strategaeth rheoli traffig a darpariaeth barcio ar gyfer y dref

Rhagwelir fod cyfle i ddefnyddio agweddau o gyllideb Cynllun y Maes fel arian cyfatebol (ôl weithredol) i ddenu arian Cydgyfeiriant er mwyn ariannu Cynllun Adfywio Ffisegol estynedig i rannau eraill o ganol tref Caer narfon.
Bydd yr holl brosiect yn cymryd oddeutu PEDAIR blynedd.
Bydd grwp llywio yn cael ei apwyntio ac fe wahoddir, maes o law, gynrychiolydd o Gyngor Tref Caernarfon.

Penderfynwyd
Gofyn am gopi o'r ddogfennau i'r Cynghorwyr i gyd a diolch am yr adroddiad

21. Cwestiynau
Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 8.00

Arwyddwyd..... Dyddiad.....